Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

2. Rheoli eich sefydliad

2.2 Y cynllun busnes

Beth yw cynllun busnes?

Syniad sydd wedi dod i'r sector gwirfoddol o fyd menter fasnachol yw 'cynllunio busnes'. Mae rhai ymddiriedolwyr yn dal i wrthod y syniad bod yr hyn y maent yn ei wneud yn rhyw fath o fusnes. Os yw'r term 'busnes' yn peri tramgwydd, galwch hwy'n 'gynlluniau datblygu'. Ond peidiwch ag anwybyddu'r manteision aruthrol a all ddod yn sgil cynhyrchu cynllun busnes. Yn aml iawn y dyddiau hyn mae'n rhaid ichi gael un er mwyn cael grant.

Beth yw pwrpas cynlluniau busnes?

Mae cynlluniau busnes yn llawer mwy na dogfennau i gefnogi cais am grant. Mae cynlluniau da yn amlbwrpas a gallant:

- helpu sefydliadau i ddiffinio'u hamcanion yn fanwl;
- eu hannog i gasglu gwybodaeth newydd am ddefnyddwyr gwasanaeth a chleientiaid;
- darparu canllawiau manwl er mwyn datblygu prosiectau a gweithgareddau, a ffordd o fonitro cynnydd;
- darparu gwybodaeth ysgrifenedig ddefnyddiol am eich gwaith a'ch amcanion i ymddiriedolwyr a gweithwyr newydd, ac ar gyfer cynghorwyr allanol;
- helpu i hyrwyddo eich gweithgareddau ymhlith grwpiau penodol yn y gymuned – e.e. aelodau a swyddogion unigol awdurdodau lleol a phobl fusnes;
- gweithredu fel y cais am grant y byddwch yn ei gyflwyno i arianwyr.

Manteision y broses gynllunio

Yn bennaf oll, mae llawer o fanteision cynlluniau busnes yn deillio o'r *broses* o gynllunio. Dylech geisio'u gweld nid fel tasg ychwanegol, ond fel cyfrwng sy'n gallu:

- eich annog i adolygu amcanion eich sefydliad gyda'ch gilydd;
- annog aelodau o'ch grŵp i weithio mewn tîm;
- eich gorfodi i brofi cynaliadwyedd tebygol eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol â manylion ariannol cryf;
- eich helpu i ddeall eich datblygiadau arfaethedig a'ch gweithgaredd newydd yn fanwl;
- dangos eich gwendidau a thynnu'ch sylw at beryglon yn y dyfodol;
- egluro sut y byddwch yn rheoli ac yn staffio'ch gweithgareddau;
- eich galluogi i fonitro cynnydd gwirioneddol.

Ac, wrth gwrs, y gweithgareddau cynllunio hyn i raddau helaeth yw'r union beth sydd ei angen arnoch pa un bynnag er mwyn llunio ceisiadau cyflawn ac argyhoeddiadol am grantiau.

Ffurf y cynllun busnes

Nid oes patrwm delfrydol ar gyfer cynllun busnes i sefydliad gwirfoddol (ond cadwch yn glir o batrymau disylwedd fel y rhai a gynigir gan fanciau'r stryd fawr). Gellir addasu'r braslun a geir ar ddiwedd yr adran hon ar gyfer anghenion cyrff gwirfoddol unigol drwy hepgor adrannau sy'n bendant ddim yn berthnasol i chi.

Mae'n cymryd yn ganiataol bod y cynllun yn rhan ganolog o gais am grant – oherwydd yn hwyr neu'n hwyrach mae cynlluniau bron bob amser yn cael eu defnyddio fel hyn.

Braslun ar gyfer cynllun busnes

1. Clawr
Nodwch eich enw a'ch logo, enw'r ariannwr y cyfeirir y cynllun ato, a'r dyddiad. Rhowch rif i bob drafft er mwyn cofio pa un yw'r diweddaraf.

2. Cyflwyniad
Disgrifiad byr o'r prosiect neu'r datblygiad; y cyfanswm sydd ei angen, ffynonellau posib, a datganiad yn nodi faint o arian y gofynnir amdano gan yr ariannwr hwn.

3. Cefndir
Beth rydych yn ei wneud, eich amcanion (ac amcanion elusennol), gwreiddiau a datblygiad eich sefydliad, eich trefniadau cyfansoddiadol.

4. Personél
Rhowch enwau'r ymddiriedolwyr presennol a'r rheolwr ynghyd â'u swyddogaethau a'u profiad (dylech gynnwys swydd-ddisgrifiadau staff allweddol mewn atodiad).

5. Yr angen neu'r 'farchnad'
Rhowch fanylion am ddefnyddwyr cyfredol ac arfaethedig eich gwasanaeth, sut rydych wedi nodi a gwerthuso'r angen (â gwybodaeth fesuredig wrthrychol am yr angen hwn ac â thystiolaeth anecdotaidd), a'r 'gystadleuaeth' *h.y.* unrhyw un arall sy'n cynnig gwasanaethau tebyg (disgrifiwch unrhyw astudiaeth ddichonoldeb neu ymchwil i'r farchnad rydych wedi ei wneud, ond rhowch y canlyniadau llawn mewn atodiad).

6. Y cynnig datblygu
Y gwasanaethau rydych yn awyddus i'w darparu neu eu datblygu, eich targedau, pwy fydd eich defnyddwyr ac ym mhle y byddant, unrhyw reoliadau arbennig y bydd angen i chi gydymffurfio â hwy, a phroblemau posib rydych wedi eu gwerthuso, ac ati.

7. Hyrwyddo
Sut y bydd darpar ddefnyddwyr a phrynwyr yn clywed am eich gwasanaeth.

8. Taliadau
Disgrifiwch sut rydych wedi pennu'ch taliadau, os oes rhai, a sut maent yn cymharu â gwasanaethau tebyg mewn llefydd eraill (rhowch unrhyw gyfrifiadau manwl mewn atodiad).

9. Staff a gwirfoddolwyr
Disgrifiwch y swyddi cyflogedig a rôl gwirfoddolwyr, y sgiliau sydd eu hangen, materion yn ymwneud â recriwtio, ymsefydlu a hyfforddi.

10. Rheoli
Pwy sy'n llunio'r polisi cyffredinol a phwy sy'n gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd, a threfniadau rheolaeth llinell a chyfathrebu presennol ac arfaethedig; trefniadau ar gyfer gosod targedau,

adroddiadau rheolaeth, monitro, goruchwylio a gwerthuso staff, rheoli trefniadau ariannol (gallai siart rheolaeth fod o gymorth).

11. Adeiladau, cyfarpar ac ati
Perchnogaeth a/neu delerau tenantiaeth, cost prydlesu neu brynu, ac addasrwydd adeiladau, costau addasu adeilad, cyfleusterau cludiant ac ati.

12. Hyfforddiant a chefnogaeth
Y cymorth rydych wedi ei gael ac y byddwch yn parhau i'w dderbyn er mwyn datblygu'r prosiect, gallu'ch grŵp, a sgiliau rheoli, cynlluniau hyfforddi.

13. Pwy sy'n elwa
Y grwpiau o bobl sy'n elwa o'ch gweithgareddau, (e.e. defnyddwyr gwasanaeth a chleientiaid, gwirfoddolwyr), sut maent yn elwa a sut y byddwch yn cofnodi ac yn mesur a ydych yn darparu'r manteision hyn.

14. Atebolrwydd
Sut y byddwch yn gwerthuso'ch cynnydd a'r hyn a gyflawnwyd gennych; sut y byddwch yn cyfathrebu gyda'r gymuned, defnyddwyr, partneriaid, arianwyr, ac ati, ac yn eu cynnwys.

15. Cyllideb/rhagolwg llif arian
Ar gyfer y tair blynedd sydd i ddod.

16. Dadansoddiad o'r trefniadau ariannol
Disgrifiad manwl ac asesiad cyffredinol o oblygiadau ariannol eich cynigion, yn egluro pob eitem sy'n ymddangos dan y penawdau incwm a gwariant yn eich rhagolwg llif arian; ffynonellau ariannol a rhagolygon ar gyfer cynaliadwyedd.

17. Amserlen y prosiect
Amserlen yn dangos prif gamau'r broses o gyflawni pob un o'ch prif amcanion.

18. Cryfderau a gwendidau
Disgrifiad o gryfderau a gwendidau eich sefydliad a'ch prosiect a sut y byddwch yn delio gyda'r gwendidau.

19. Crynodeb o'r cais am grant
Cyfanswm y grantiau sydd eu hangen o bob ffynhonnell, y ffynonellau a archwiliwyd a'r arian a addawyd, yn enwedig arian cyfatebol; arian y bydd ei angen yn y dyfodol a ffynonellau posib.

Sut mae rhagolwg llif arian yn gweithio

Pan fo'ch materion ariannol yn gymhleth, neu os yw'n anodd rhagweld amseriad incwm neu wariant, bydd arnoch angen rhagolwg llif arian yn hytrach na chyllideb syml i'ch helpu i ragweld a fydd gennych ddigon o arian i dalu eich ffordd bob mis. Mae prif nodweddion llif arian fel a ganlyn:

- Nodir incwm pan fo'n debygol o ddod i law, nid pan fo i fod i ddod i law.
- Nodir gwariant pan fyddwch yn ei dalu (e.e. ar ôl cyfnod o gredyd) nid o reidrwydd pan fo'n dod yn ddyledus.
- Mae'r rhagolwg yn cynnwys gweddill cyfredol ar gyfer pob mis i ddweud wrthych faint y gallwch ddisgwyl ei gael yn y banc ar ddiwedd y mis.
- Mae hyn yn eich rhybuddio ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw ostyngiad tebygol yn eich gweddill a allai achosi problemau - cyn ichi ddechrau gwario ar rywbeth.

- Gallwch ail-addasu eich cynlluniau os oes angen er mwyn osgoi neu ddygymod ag unrhyw brinder arian a ragwelir.

Os ydych yn defnyddio rhaglen daenlenni gyfrifiadurol (e.e. MS Excel) mae'n ddigon rhwydd i chi ddefnyddio'r un dull gweithredu os byddwch yn sydyn yn canfod eich hun ar drothwy argyfwng llif arian posib. Dewch â'ch gwir incwm a gwariant yn gyfredol, ac ail-gofnodwch y derbyniadau a'r costau disgwyliedig ar gyfer y dyfodol cyn gywired ag y gallwch ar yr adegau y maent yn debygol o ddigwydd. (Bydd y canlyniad yn dweud wrthych a oes angen ichi ddechrau dal gwariant llai pwysig yn ôl, mynd ar ôl dyledwyr, gofyn i'r banc am orddrafft ac ati.)

Mwy o wybodaeth

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr
Ffôn: 0870 333 0123
www.charity-commission.gov.uk

VolResource
www.volresource.org.uk

Business Balls
www.buisnessballs.co.uk

Performance Hub
www.performancehub.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB
Elusen Gofrestredig *1061364*

Ffôn: 01570 423232 gen@cavo.org.uk
Ffacs: 01570 422427 www.cavo.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:15/06/2007

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk